Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – crynodeb o'r cofnodion – 22 Medi 2009

Adroddiad Chwarterol Iechyd a Diogelwch
Darparwyd adroddiad cynnydd o ganlyniad i'r mesurau ychwanegol a drefnwyd yn sgil yr adolygiad. Sicrhawyd y Bwrdd fod system reoli fwy cynhwysfawr yn gweithredu bellach yn Nhŷ'r Cwmnïau. Ailgadarnhaodd y Bwrdd eu hymrwymiad i iechyd a diogelwch staff ac ymwelwyr drwy ei gwneud yn glir mai Tŷ'r Cwmnïau oedd y flaenoriaeth bennaf.

Cyfeiriad Strategol
Gwahoddwyd yr aelodau i sôn am yr wybodaeth a gyflwynid yn y Map Ffyrdd Strategol ac awgrymu unrhyw ddiwygiadau neu ychwanegiadau. Ar ôl i'r cynllun gael ei gymeradwyo, y prif ddatblygiad oedd angen dros y mis neu ddau nesaf oedd sicrhau bod y cynllun ariannol yn cydweddu'n gyfforddus â'r Cynllun Strategol.

Strategaeth Gynhyrchion
Trafododd y Bwrdd Strategaeth Gynhyrchion ddyfodol Tŷ'r Cwmnïau ac ymhlygiadau'n datblygiad cynhyrchion o ran adnoddau ar gyfer 2009 – 2012.

Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd
Yn sgil cwblhau arolwg effeithiolrwydd, adolygodd y Bwrdd y canlyniadau/sylwadau, gan gymeradwyo nifer o fesurau a fyddai'n gwella'u perfformiad cyffredinol.

Rhaglen Deddf Cwmnïau – Sefyllfa Ddiweddaraf
Cyflewyd i'r Bwrdd y sefyllfa ddiweddaraf cyn i Ddeddf Cwmnïau 2006 gael ei gweithredu ar 1 Hydref. At ei gilydd, roedd Tŷ'r Cwmnïau mewn safle da ac roedd pob tîm yn canolbwyntio ac yn barod.

Arolwg Boddhad Cwsmeriaid
Adolygodd y Bwrdd y canlyniadau yn sgil cyhoeddi Adroddiad Arolwg Chwarter 2 o Foddhad Cwsmeriaid. Cytunwyd y dylid cynnal adolygiad sylfaenol gan fod yr aelodau'n awyddus i ddeall anghenion ac ymddygiad ein cwsmeriaid yn fwy manwl mewn ffordd a'n galluogai i gynllunio'n dyfodol yn gliriach.

Sefyllfa Ddiweddaraf Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio mis Awst
Cyflwynodd yr ABB ei sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y mis i'r Bwrdd. Lle'r oedd cwsmeriaid yn y cwestiwn, nodwyd y buasai'r perfformiad yn dda yn ystod y mis ac y manteisiodd y nifer uchaf erioed ar ffeilio electronig a'r drefn gydymffurfio.

Cyflawniad Ariannol
Cafodd Pecyn Cyfleu Manylion Ariannol mis Awst ei gylchredeg er gwybodaeth ymhlith yr aelodau. Mae cyllid yr Asiantaeth yn edrych yn dda.

Adolygu Risgiau Tyngedfennol y Bwrdd Gweithredol
Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risgiau gyfredol, gan gymeradwyo'r diwygio i rai o'r portreadau risg a gyflwynwyd.

Sefyllfa Ddiweddara'r Rhaglen E100
Darparwyd adroddiad cynnydd yn adlewyrchu sefyllfa ddiweddara'r amrywiol brosiectau oedd yn rhan o'r rhaglen. Nodwyd bod cynllun einioes lawn yn yr arfaeth i ddiffinio safle terfynol y rhaglen.

Ysgrifenyddiaeth
Medi 2009